# Gwent Police Child Centred Policing

## *Putting you first*

**Gwent Police believe that no child or young person should have to suffer harm, violence, abuse or exploitation.**

Gwent Police have written a plan to help officers focus on the issues affecting children and young people.

## Gwent Police pledge to:



**BUILD** stronger relationships between Gwent Police and children and young people.

**PREVENT** children and young people being drawn into a life of crime.

**RESPECT** the voices of children and young people.

**IMPROVE** the life chances of young people who are involved in crime by working with organisations such as the Youth Offending Team.

**SUPPORT** children and young people who are victims of crime, including those who are exposed to all forms of abuse and exploitation.

## Gwent Police pledge to do this by:

### BUILDING TRUST

Every time an officer meets a young person it will provide a chance to build a relationship and develop trust.

### MORE TRAINING

Officers and staff will receive more training to understand some of the reasons why a young person is behaving in a certain way and will work with other organisations to provide support at the earliest opportunity.

### LISTENING

Gwent Police will listen to and respect the voice of every child that they meet, including children from different backgrounds, to help understand the issues that affect their lives.

### WORKING WITH YOU

Gwent Police will use the views of young people to help shape the organisation and its actions.



# Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn Heddlu Gwent

## *Eich rhoi chi'n gyntaf*

**Mae Heddlu Gwent yn credu na ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc orfod dioddef niwed, trais, cam-drin na cham-fanteisio.**

Mae Heddlu Gwent wedi ysgrifennu cynllun i helpu swyddogion i ganolbwyntio ar y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

## Mae Heddlu Gwent yn addo:



**MEITHRIN** perthynas gryfach rhwng Heddlu Gwent a phlant a phobl ifanc.

**ATAL** plant a phobl ifanc rhag cael eu tynnu i mewn i fywyd o droseddu.

**PARCHU** lleisiau plant a phobl ifanc.

**GWELLA** cyfleoedd bywyd pobl ifanc sy'n ymwneud â throseddu drwy weithio gyda sefydliadau fel y Tîm Troseddau Ieuenctid.

**CEFNOGI** plant a phobl ifanc sy'n dioddef trosedd, gan gynnwys y rhai hynny sy'n agored i bob math o gam-drin a cham-fanteisio.

## Mae Heddlu Gwent yn addo gwneud hyn drwy:

### MEITHRIN YMDDIRIEDAETH

Bob tro y bydd swyddog yn cwrdd â pherson ifanc, bydd yn rhoi cyfle i feithrin perthynas a datblygu ymddiriedaeth.

### MWY O HYFFORDDIANT

Bydd swyddogion a staff yn cael mwy o hyfforddiant i ddeall rhai o'r rhesymau pam mae person ifanc yn ymddwyn mewn ffordd benodol a bydd yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu cymorth cyn gynted â phosibl.

### GWRANDO

Mae Heddlu Gwent yn gwrando ar lais pob plentyn y maen nhw'n ei gyfarfod ac yn ei barchu, gan gynnwys plant o wahanol gefndiroedd, er mwyn helpu i ddeall y materion sy'n effeithio ar eu bywydau.




### GWEITHIO GYDA CHI

Bydd Heddlu Gwent yn defnyddio barn pobl ifanc i helpu i lunio'r sefydliad a'i weithredoedd.